OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 633

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023

## RHAN 6

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

### PENNOD 3

### Diwygiadau i'r diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan"

**19.** Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan"—

(a) yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo;";

(b) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo neu baragraff ARAP 16.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo;

(ab) y rhoddwyd caniatâd amhenodol iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.2 o'r Atodiad hwnnw i'r rheolau mewnfudo;".